Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Ymateb Llywodraeth Cymru i lifogydd
CCERA(5) BR 01
Ymateb gan Pwyllgor COPA

Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
Biodiversity and Rewilding
CCERA(5) BR 01
Evidence from COPA Committee

**Cyflwyniad**

Ffurfiwyd pwyllgor COPA o bleidlais yng nghyfarfod Talybont, Ceredigion ar 31ain Gorffennaf 2019. Pwrpas y cyfarfod oedd i'r gymuned leisio barn am y tro cyntaf ar brosiect 'Llong Faner' Rewilding Britain, a dderbyniodd £3.4 miliwn gan yr Endangered Landscapes Program (menter a ariennir yn gyfan-gwbl gan yr Arcadia Fund [https://www.arcadiafund.org.uk/our-team]) yn 2018. Mynychodd dros 150 o bobl lleol y cyfarfod, a datganwyd yn unfrydol nad oedd yna unrhyw ffydd yn Rewilding Britain na'u prosiect. Ffurfiwyd COPA i geisio eglurder ar ran y gymuned ac i sicrhau na fyddai llais y gymuned yn cael ei anwybyddu a'i hepgor yn yr un modd mewn trafodaethau tirwedd yn y dyfodol. Yn yr un cyfarfod, pleidleisiwyd yn unfrydol y dylai Rewilding Britain adael y prosiect yn syth, a mynegwyd syndod a siom bod y prosiect wedi cyrraedd y pwynt hwn, a derbyn cyllideb, heb unrhyw ymwneud ystyrlon gyda'r gymuned oedd yn ganolog i'r ardal a amlinellwyd ganddynt.

O ganlyniad i anniddigrwydd cyhoeddus y gymuned a phartneriaid eraill prosiect Summit to Sea, bu Rewilding Britain adael y prosiect rhwng Tachwedd 2019 a Mehefin 2020, a deallwn nad ydyw rhagor yn brosiect 'ailwylltio'. Hoffem nodi bod y prosiect ar ei newydd wedd, dan arweiniad RSPB Cymru, yn sylweddol fwy tryloyw na phan oedd Rewilding Britain wrth y llyw (rhyddhawyd manylion y cais prosiect gwreiddiol dim ond wedi iddynt adael, er bod gofyn amdano wedi bodoli ers 18 mis), a bod y berthynas newydd gyda'r gymuned leol yn dechrau trwsio'r niwed a'r rhwygau a ddaeth o’r prosiect cynnar – nid yw hyn yn gyfystyr â chefnogaeth diamau, ond mae'n sefyllfa'n sylweddol well na 2019.

Mae canolbarth Cymru wedi bod yn ffocws 'ailwylltio' ers amser, gyda'r chwyddwydr yn cael ei osod yn gadarn arnom yn llyfr 'Feral' George Monbiot. O ganlyniad i hyn, natur prynu a llogi safle fferm Llechwedd Einion gan Coed Cadw i'r Wales Wild Land Foundation, ac ymddangosiad Rewilding Britain a'u prosiect, mae aelodau'r gymuned wedi bod yn ystyried oblygiadau ailwylltio ar ein tirwedd dros nifer o flynyddoedd. Mae llawer yn astudio'r testun, yn mynychu a chyflwyno mewn cynadleddau ar 'ailwylltio' ac yn ymweld â safleoedd prosiectau 'ailwylltio' dros y DG. Mae'r pwyntiau bwled a ganlyn yn grynhoad o farn COPA ar ailwylltio yn gyffredinol. Bydd yr ail adran yn canolbwyntio yn fwy manwl ar Summit to Sea a'r gwersi a ddysgwyd yn ei sgil, yn enwedig y cyfnod pan fu Rewilding Britain yn creu ac arwain y prosiect:

**Prif Bwyntiau ar 'ailwylltio'**


1. Rydym yn cytuno gyda chanfyddiadau Hayward et al (2019):

*"While the term has been broadly applied in the public domain, we find that within the scientific literature rewilding is the subject of a dozen different definitions (Jørgensen, 2015)... fuzzy definitions are more open to broad interpretation and can therefore be easily manipulated, allowing poor conservation decisions to sit under the umbrella of a popular, but ill conceived term"*
[https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0006320719301351]

2. Nid ydym yn teimlo bod 'ailwylltio' yn strategaeth angenrheidiol i hybu twf ac adferiad bioamrywiaeth. Mae'n derm mor eang bod yna strategaethau a phrosesau sydd wedi eu mabwysiadu i'w fethodoleg sydd yn fuddiol, ond maent yn strategaethau sydd yn bodoli eisoes fel rhan o brosesau cadwraethol ac amaethyddol, heb yr angen i'w cyflyru yn niwl cysyniadol 'ailwylltio'

3. Teimlwn bod gosod tirweddau ar 'gontinwwm' ailwylltio yn eithriadol o beryglus i gymunedau gwledig sydd yn ddibynnol ar weithgarwch ar y tir am eu bodolaeth. Diben pob continwwm yw hybu symudiad tuag at ei bwynt eithaf – yng nghyd-destun ailwylltio y pwynt hwn yw tirwedd eang gyda dim gweithgarwch gan ddyn.

   Defnyddiwyd y ffigwr isod i amlinellu continwwm ailwylltio gan Helen Meech, cyn Prif-Weithredwr Rewilding Britain [https://iale.uk/rewilding-how-protect-gains-past-and-kick], sylwer bod echel 'y' y graff yn nodi 'dwysedd rheolaeth' – h.y. 'gwaith' ar y tir, un o ddibenion craidd 'ailwylltio' ac un o'i fesuriadau canolog yw'r lleihad mewn 'gwaith'




(Lawton 2016)

   Bydd pob cam ar y continwwm hwn yn lleihau gweithgarwch yn y tymor hir, gan beryglu swyddi, yr economi wledig, ffermydd teuluol a chymunedau hyfyw. Mae gosod tir ar y continwwm hwn yn dad-rymuso cymunedau lleol rhag gosod blaenoriaethau ar gyfer eu tirweddau eu hunain, yn eu caethiwo i weithredu oddi-fewn i fframwaith sydd yn gosod natur 'wyllt' uwchben pob dim arall [https://play.acast.com/s/bbccountryfilemagazine/rewildingwiththreatenwelshculture-saysfarmerdafyddmorrisjones]

4. Amlinella adroddiad 'Iaith y Pridd' [https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/sites/farmingconnect/files/documents/Adroddiad%20Iaith%20Y%20Pridd.pdf] bod perthynas gynhyrchiol, weithgar gyda thirwedd yn hanfodol i sicrhau parhad a ffyniant yr Iaith. Derbyniodd yr adroddiad hwn glod gan Gomisiynydd yr Iaith. Mae adran 5.3 yn ymateb yn uniongyrchol i 'ailwylltio' yn y cyd-destun Cymreig:
   *"Mynegodd nifer o'r cyfranwyr eu pryder am effeithiau ymyraethau 'ail-wylltio' yn benodol. Tanlinellwyd bod diboblogi gwledig yn medru digwydd o ganlyniad i droi tir amaethyddol o gynhyrchu bwyd i ddarparu 'nwyddau' amgylcheddol yn unig, gyda 'phrosesau naturiol' a dulliau anweithredol o reoli tir yn cynnig llai o weithgarwch yn yr economi wledig sydd yn ddibynnol ar sector amaeth gynhyrchiol (megis contractwyr, darparwyr nwyddau a gwasanaethau, llafurwyr, milfeddygon ayyb), ac yn y pen draw byddai hyn yn achosi i'r iaith gilio yn y sector ehangach wrth i'r sector amaethyddol grebachu. Mynegwyd hefyd na fyddai twf mewn sectorau eraill, yn enwedig y sector dwristiaeth, yn darparu'r un cymhelliad i ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ganlyniad ni fyddai'n llenwi'r bwlch a ddeuai o ganlyniad i leihad unrhyw weithgarwch yn y sector amaethyddol."*

5. Nodwn bod llawer o amcangyfrifon gwerth ychwanegol 'ailwylltio' i'r economi wledig yn seiliedig ar dyfu gwerth yr 'economi natur' ac yn enwedig 'twristiaeth bywyd gwyllt'. Amlinella adroddiad 'Wildlife Economy Wales: An Economic Scoping Study' (2007) gwerth y sectorau gwahanol yn yr 'economi bywyd gwyllt' i Gymru yn y tabl isod (tt. 21 & 22) – mae gwerth y sectorau cynhyrchiol yn llawer uwch na'r gweddill, gyda thwristiaeth bywyd gwyllt yn isel iawn (8%), ni deimlwn bod peryglu'r sectorau cynhyrchiol er mwyn tyfu'r sector bychan hwn yn mynd i ddarparu dyfodol llewyrchus i'r Gymru wledig.

| Activity Type [all Wales] (millions) | Direct | Direct as % | Indirect | Indirect as % | Total | Output as % of total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Public & voluntary sector conservation | £401 | 28% | £119 | 23% | £520 | 27% |
| Hotels, bars and restaurants, Recreation, culture and welfare, Retail (including 'wildlife tourism') | £124 | 9% | £36 | 7% | £159 | 8% |
| Agriculture, Fishing and Forestry | £765 | 54% | £308 | 60% | £1,074 | 55% |
| Electricity, Gas, Water & Sanitary services | £125 | 9% | £43 | 8% | £168 | 9% |
| Education | £7 | 1% | £3 | 1% | £10 | 1% |
| Other professional business, community and retail services | £4 | 0% | £2 | 0% | £6 | 0% |
| **Total** | **£1,426** | **100%** | **£510** | **100%** | **£1,936** | **100%** |

6. Dyfynnwyd cyfrannwr yn adroddiad Iaith y Pridd, sydd hefyd yn atseinio pryderon a nodwyd yn lleol parthed effaith prosiectau 'ailwylltio' ar ffermwyr tenant a phorwyr tir comin:

*“Os ydy’r taliadau yn mynd i... gael ffocws ar unrhyw beth ond cynhyrchu, os ydi’r ffocws yn mynd i fod yn gwbl amgylcheddol, wel mae ‘na beryg [er enghraifft] bydd ‘na rhai ffermwyr tenant, a ‘dyn ni’n gweld e’n digwydd yn barod, yn cael marching orders... am bod y landlord yn gweld ffordd... i gymryd taliadau am y gwaith amgylcheddol [ei hunain]”*

7. Nodwn bod 'ailwylltio' yn dechrau tyfu yn ei boblogeiddrwydd ymysg tirfeddianwyr mawrion ac pryderwn am sgil-effeithiau hyn, gan glywed yn barod gan ffermwyr a chominwyr mewn mannau eraill yn y DG bod hawliau pori a thenantiaethau wedi eu tynnu yn ôl er mwyn canlyn amcanion 'ailwylltio' gan dirfeddianwyr mawr. Nodwn bod prosiect ailwylltio Knepp (sydd yn aml yn cael ei glodfori fel patrwm ar gyfer mannau eraill) wedi ymddiswyddo'r gweithwyr amaethyddol, gwagio'r tai a aeth gyda'r swyddi a'u defnyddio i ddarparu lletyau gwyliau yn hytrach na chartrefi i aelodau o'r gymuned leol.

8. Parthed cyfleoedd i storio Carbon yn y tir, rydym yn argyhoeddedig bod modd i uchafu gallu'r tir i amsugno carbon oddi-fewn i reolaeth weithredol, a pryderwn bod rheolaeth anweithredol dan fesurau 'ailwylltio' yn mynd i fethu cyflawni hyn yn sylweddol well, neu o gwbl, tra hefyd yn peryglu'r cynefinoedd prin sydd yn ganlyniad o'r cyd-esblygiad rhwng amaeth a phrosesau naturiol dros filoedd o flynyddoedd. e.e. Ar fawndiroedd a phriddoedd asidig, mae yna dystiolaeth bod caniatáu tyfiant coed yn mynd i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y tymor byr / canolig, yn hytrach na'u lleddfu [https://www.stir.ac.uk/news/2020/july-2020/tree-planting-does-not-always-boost-ecosystem-carbon-stocks-study-finds/]. Mae profiad aelodau'r gymuned ac ysgolheigion lleol yn dangos nad ydyw 'aildyfiant naturiol' yn strategaeth sydd yn cynhyrchu coetiroedd dwys o fiomas uchel, ac o ystyried agosrwydd llawer o ucheldir Cymru i blanhigfeydd conwydd CNC, rydym wedi gweld prawf ar diroedd lleol mae coed conwydd an-frodorol fydd yn lledu pan lleiheir dwysedd pori a rheolaeth weithredol.

9. Parthed twf yn yr arwynebedd tir sydd dan goed yng Nghymru, wedi trafod gyda sefydliadau megis Coed Cymru a Choed Cadw, credwn bod llawer o botensial sydd dal heb ei wireddu (yn rhannol o ganlyniad i rwystrau grantiau megis Grant Coetir Glastir, ac o ganlyniad i anhyblygrwydd y Mapiau Cyfle Coetiroedd) fel rhan o systemau amaethyddol ac amaeth-goetirol. Nid ydym yn credu bod 'ailwylltio' yn ychwanegu i hyn. Byddai'r coetiroedd hyn yn gweithio oddi-fewn i systemau cynhyrchiol, yn ychwanegu at drosiant a chyfranogiad economaidd y tir, ac yn cydbwyso'r angen i sicrhau dyfodol cynhyrchiol y daliadau – yn annhebyg i amcanion anweithredol 'ailwylltio'.

10. Gobeithiwn am ddyfodol gynaliadwy ar gyfer ucheldir Cymru, yn darparu tirwedd poblog, gweithgar a chynhyrchiol gan gynnal adfywiad naturiol a chymdeithasol, a chynnal ac atgyfnerthu ein diwylliant a'n hiaith. Hwn ddylai fod yn flaenoriaeth i ni, yn uchelgais ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, hwn ddylai fod yn begwn i unrhyw gontinwwm ar gyfer y Gymru wledig – nid gweithredu er mwyn gadael y tir. Pryderwn yn fawr bod yr ymgais i greu arian am reoli tir yn anweithredol yn gweithio o fantais fawr i fuddsoddwyr rhyngwladol – yn creu esgus i wagio tir o'i

boblogaeth weithredol a derbyn taliadau am wneud dim ond ei adael yn segur, gan agor cefn gwlad a'i chymunedau yn llwyr i rymoedd cyfalafiaeth rhyngwladol a'r farchnad arian.

11. Mae ein tirwedd yn enghraifft wirioneddol o 'dirwedd diwylliannol', yn gynnyrch cyd-esblygiad rhwng gweithgarwch dynol a grymoedd natur. O ganlyniad yn bennaf i ysgogiadau ariannol trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol a phwysau'r farchnad, mae gweithgarwch amaethyddol ar y bryniau wedi crebachu yn ddiweddar, ac mae yna bryder mae'r crebachiad hwn sydd yn gyrru'r colledion bioamrywiaeth dwysaf a mwyaf arswydus. Trwy ddadansoddiadau o gyfraddau stocio anifeiliaid ar ein tir uchel (sydd nawr yn eithriadol isel o gymharu a chyfraddau hanesyddol), rydym yn argyhoeddedig bod y naratif wrth-amaethyddol sydd wrth wraidd damcaniaethau 'ailwylltio' yn anghywir, yn ymateb i sefyllfa amaethyddol y 1980au, ac yn methu ymateb i'r heriau tirwedd sydd nawr o'n blaenau, o effeithiau tanbori a thwf glaswelltydd cras (e.e. molinia) sydd yn tagu cynefinoedd a rhywogaethau ucheldirol bregus, i golled ein caeau gwair traddodiadol (nid oes angen gwneud gwair os nad oes yna gymaint o anifeiliaid) a lleihad yr adar sydd yn dibynnu gymaint ar glytwaith brith o gynefinoedd lled-naturiol ac amaethyddol [https://fuw.org.uk/images/pdf/cambrian-mountains-report-may-2013.pdf]

12. Nodwn bod gosod naratif 'ailwylltio' ar brosiectau ac ymyraethau cadwraethol yn cynyddu'r lefel o wrthdaro rhwng rhanddalwyr, ac yn tanseilio ffydd. Wrth wynebu argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd, mae hyn yn niweidio gallu rhanddeiliaid o safbwyntiau gwahanol i gydweithio yn gadarnhaol. Pryderwn bod mudiadau ac elusennau cadwraethol nawr yn 'ail-frandio' eu gweithgarwch fel 'ailwylltio' er mwyn denu cyllidebau amgen, nid oherwydd eu bod yn llwyr gefnogol o'r amcanion. Gwelwyd ffaeledd hyn wrth i 'bartneriaid' Summit to Sea ddatgan eu ddiffiniadau gwahanol o 'ailwylltio' wrth i'r prosiect ddadfeilio yn 2019, gan ddangos nad oedd yna gytundeb o gwbl ar ddiffiniad nac amcanion y rhai oedd yn 'cefnogi'r' fenter.

**Sumit to Sea**

Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar brosiect Summit to Sea dan arweiniad Rewilding Britain. Mae rhai o'r pwyntiau yn perthyn yn enwedig i ardal Pumlumon a'r Canolbarth, ac eraill yn enghreifftio patrymau o ofid ar lefel cenedlaethol. Teimlwn bod Summit to Sea yn enghraifft bwysig iawn o ymyraethau arfaethedig 'ailwylltio' mewn tirweddau go-iawn, a bod ei ffaeleddau o arwyddocâd sylweddol am y rhesymau canlynol:

- Hwn oedd prosiect 'llong faner' Rewilding Britain – yr unig elusen sydd ag amcanion ar gyfer y DG gyfan i weithredu ymyraethau 'ailwylltio' ar raddfa eang.
- Mae Rewilding Britain yn ffrwyth dychymig a gwaith unigolion mwyaf blaenllaw 'ailwylltio' yn y DG, ac yn adlewyrchiad o'u hagwedd a'u dulliau hwythau.
- Roedd y gyllideb ar gyfer y prosiect o un o arianwyr haelionaf prosiectau ailwylltio rhyngwladol (Arcadia – Lisbet Rausing, trwy law yr Endangered Landscapes

Program).

- Hwn oedd y prosiect ailwylltio mwyaf (arwynebedd tir) yng Nghymru a Lloegr (10,000ha)
- Roedd y 'bartneriaeth' yn cynnwys nifer o fudiadau cadwraethol cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn honni cefnogaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Ariannwyd y prosiect gan gyllideb preifat sylweddol, yn ddefnyddio prosesau awdurdodi ac archwilio sydd yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.
- Derbyniodd y prosiect glod sylweddol yn y cyfryngau, ac mewn mannau eraill, wedi ei lansio – er nad oedd yna unrhyw gefnogaeth iddo ar lawr gwlad ac nad oedd yr amcanion manwl wedi eu cyfathrebu yn gyhoeddus.

Dyma amlinelliad bras o wrthwynebiad nifer yn y gymuned, ac aelodau COPA, tuag at y prosiect ar ei ffurf wreiddiol:

a) Ni fu yna unrhyw ymgynghori na chyfathrebu lleol ystyrlon cyn ariannu'r prosiect. Nid oedd yna gefnogaeth am ei amcanion. Defnyddiwyd contractwyr taledig mewnol y prosiect (Conservation Capital & Eden Project) yn y ddogfennaeth cais i 'brofi' cefnogaeth. Nodwyd y contractwyr hyn yn 'bartneriaid', 'ymgynghorwyr' a 'rhanddeiliaid' mewn mannau gwahanol yn y ddogfen.

b) Nid oedd y 'partneriaid' yn adlewyrchu natur cymuned nac ardal y prosiect. Wedi i Cyfoeth Naturiol Cymru eglurhau eu safbwynt (nid oeddent yn bartneriaid er i wefan y prosiect eu cynnwys), ni gynrychiolwyd mwy na 20% o'r tir a fynnwyd gan y prosiect fyddai'n cael ei gynnwys i'w 'ailwylltio' (10,000ha yn y 5 mlynedd gyntaf, gyda'r bwriad o chwyddo i 60,000ha dros amser). Nid oedd un o'r mudiadau yn cynrychioli'r gymuned leol ar unrhyw raddfa nac yn atebol i boblogaeth ardal y prosiect. Ni wnaed unrhyw ymgais i gynnwys cynrychiolwyr etholedig y gymuned, ond gwnaed pob ymdrech i hyrwyddo'r prosiect i gefnogwyr Rewilding Britain

c) Anwybyddwyd a diystyrwyd pryderon y gymuned leol, gan gynnwys y busnesau, tirfeddianwyr a defnyddwyr tir a môr oddi-fewn i ffiniau'r prosiect, gan fynnu eu bod wedi 'camddeall'. Pan ofynnwyd am dystiolaeth i gefnogi hyn, gwrthodwyd rhannu'r cais gwreiddiol, na chwrdd â mwy na 5 person ar yr un waith (mewn ardal oedd yn cynnwys 250 o ffermydd, 11 tref/pentref a degau o filoedd o bobl!)

d) Nid oedd yna fodd i'r gymuned leisio barn na chodi pryderon gyda'r arianwyr (Endangered Landscapes Program) yn uniongyrchol.

e) Nid oedd yna strwythurau i'r ariannwr ddilysu gwirionedd y 'dystiolaeth' a ddarparwyd gan yr ymgeiswyr (Rewilding Britain). Roedd y cais gwreiddiol [http://www.summit2sea.wales/wp-content/uploads/2020/04/Summit-to-Sea-Final-Bid-Document-August-2017-1-1.pdf] yn wallus a chamarweiniol parthed dulliau defnydd/rheoli tir cyfredol yn yr ardal, cefnogaeth, partneriaid, y gymuned a'r economi wledig, mwy yn gampwaith o ffuglen nac adlewyrchiad o wirionedd. Roedd y ffaith bod bwrdd dethol yr arianwyr yn cynnwys aelodau o fwrdd cyfarwyddwyr Rewilding Britain yn ychwanegu at y pryder nad oedd y prosiect yn cael ei ddilysu mewn modd di-duedd.

f) Nodwyd bod elusen Rewilding Britain wedi ei chreu gan George Monbiot (ei bartner yw'r prif-weithredwraig, cyfeiriad cartref Monbiot oedd cyfeiriad cyswllt cais gwreiddiol Summit to Sea) a'r buddsoddwr Ben Goldsmith, o ganlyniad i 'ysbrydolaeth' y llyfr Feral [https://www.rewildingbritain.org.uk/blog/plotting-hope-how-one-rewilding-journey-began], gan gynnwys y disgrifiadau camarweiniol o ardal ac amaeth canolbarth Cymru. Nid yw gweledigaeth Monbiot ar gyfer dyfodol yr ardal fel 'a community of former farmers' (Monbiot 2013) yn darparu ysbrydolaeth i'r gymuned sydd yma. Mae ei ymosodiadau cyson ar amaeth a chymunedau gwledig Cymru ac ymosodiadau Goldsmith (wedi galw'r gymuned yn "trolls who go whingeing to their MPs" am godi pryderon ynghylch Summit to Sea) yn golygu nad oedd yna ffydd yn yr elusen i greu prosiect nac ymddwyn mewn modd cytbwys, gwybodus a di-duedd.

g) Roedd yna wrthwynebiad clir i'r elfen o 'brynu tir strategol'. Nodwyd yn y cais bod hyn hefyd yn cynnwys strategaeth i berswadio mudiadau/unigolion cyfoethog i brynu tir i'w 'ailwylltio' ar ran y prosiect, heb o reidrwydd ddatgan hynny yn agored. *"Core...and buffer areas will be established by connecting up existing restoration initiatives...and acquiring additional strategic parcels of land where appropriate." "the project may try to identify sympathetic private third parties to purchase land parcels"*

h) Nid oedd yna gefnogaeth am 'frandio' yr ardal fel llong faner 'ailwylltio', a teimlwyd byddai'r atyniad o'r fath 'frandio' yn denu eraill i brynu tir yn gyfagos, gan brisio unigolion lleol allan o'r farchnad – gwelwyd bod hyn yn fygythiad mwy ar ffermydd bychain (sydd yn angenrheidiol i'r to ifanc gael mynediad i'r diwydiant). Gwelwyd esiampl prynnu fferm Llechwedd Einion gan Coed Cadw (am bris uwch na'i werth masnachol) a natur prydles y Cambrian Wildwood ar y safle (150 mlynedd yn ddi-dal) yn enghraifft o'r hyn a allai ledu yn sgil y fath ddatblygiad.

i) Gwelwyd rhagrith amlwg rhwng fusnes masnachol y prif ariannwr (Rausing - Ingleby Farms and Forests [https://en.wikipedia.org/wiki/Lisbet_Rausing]) a naratif y prosiect. Teimlwyd bod busnesau ffermio o faint Ingleby (53,000 dafad, 61,000 o wyn a 300-400 tunell o wlân y flwyddyn o Seland Newydd & Awstralia [https://inglebyfarms.com/products/lamb-wool]) yn tanseilio gallu ffermwyr Cymru i gystadlu tra'n defnyddio dulliau cynaliadwy. O ganlyniad nid oeddent yn ariannwr priodol ar gyfer prosiect oedd yn ceisio 'trawsffurfio' natur amaethyddol tirweddau Cymru.

j) Roedd y prosiect yn anwybyddu'r gwaith da sydd yn digwydd ar diroedd yr ardal, gan bardduo'r sefyllfa er mwyn dilysu eu hamcanion. Doedd fawr o dystiolaeth i gefnogi eu damcaniaethau, ac roedd eu disgrifiadau o'u dymuniadau yn newid yn ddibynnol ar eu cynulleidfa (neges wahanol yn yr ardal i'r un i'w cefnogwyr/arianwyr allanol)

k) Roedd pryder dwys bod effaith defnydd tir anweithredol dros y 30 mlynedd diwethaf wedi niweidio bioamrywiaeth yr ucheldir yn fawr, a bod diffyg stocio a gweithgarwch amaethyddol yn rhannol gyfrifol am hyn, ynghyd â'r twf mewn pwysau gan

ysglyfaethwyr canol a ddaw o diroedd heb reolaeth (e.e. planhigfeydd CNC ar hyn o bryd)

l) Nodwyd nad oedd yna fawr o ddata craidd nac ymchwil i gefnogi barn y prosiect, a teimlwyd y byddai'n well pe buasai sefydliadau di-duedd academaidd lleol yn derbyn cyllideb i lenwi'r bwlch gwybodaeth hyn, yn hytrach nag ariannu prosiect byrfyfyr.

m) Nid oedd yna unrhyw gefnogaeth gan sefydliadau academaidd lleol (roedd nifer o'u ysgolheigion yn bryderus am y prosiect), ac nid oedd yna bwyslais ar gasglu data ystyrlon a gwrthrychol.

n) Roedd yna bryder dwys y byddai'r prosiect, wrth 'drawsffurfio'r' economi leol yn tanseilio’r economi gynhyrchiol (sydd yn darparu 27% o'r gyflogaeth uniongyrchol a llawer mwy yn y sectorau eilradd, mwy fyth os ystyrir y nifer o gartrefi sydd yn derbyn cyflog o'r sectorau hyn), ac yn darparu dim ond “*some nature friendly farming in buffer areas and opportunities for low-impact ecotourism and nature friendly business*” yn ei le – nid dyma'r dyfodol sydd ei angen na'i eisiau. Profwyd effaith diflaniad tir ac amaeth gan y gymuned hon yn y 1950au pan blannwyd coed y Comisiwn Coedwigaeth, nid ydym eisiau ei brofi eto.

Mae yna bryderon helaethach, a gobeithiwn drafod y rhain a chael cyfle i roddi cig ar yr asgwrn yn ystod ein cyfarfod.

Diolch am y cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth. Gobeithiwn yn fawr y bydd hyn yn gyfle i Gymru droi cefn ar naratif or-syml ailwylltio a thynnu'r drafodaeth i dir mwy ystyrlon, gwybodus ac aeddfed. Atebion Cymreig i diroedd Cymru, ac esiampl i weddill y byd ei hefelychu.